**Cynhadledd y Byd ILGA 2024 a'r Uwchgynhadledd Cydraddoldeb Byd-eang**

**Cape Town, De Affrica | 11 – 15 Tachwedd 2024**

---

## 1 Cyd-destun

Ym mis Tachwedd 2024, daeth Cape Town yn brifddinas dros dro ar gyfer eiriolaeth LHDTC+ ledled y byd. Cafodd dau ddigwyddiad cydgysylltiedig eu cynnal yno, sef:

- **Cynhadledd y Byd ILGA** – fforwm mwyaf y mudiad, yn dychwelyd i Affrica am y tro cyntaf ers 25 mlynedd, gan groesawu tua **1,450 o gynrychiolwyr o fwy na 100 o wledydd** o dan y faner *"Kwa umoja we rise*" ("Gyda'n gilydd, fe godwn").
- **Uwchgynhadledd Cydraddoldeb Byd-eang** – cyfarfod a drefnwyd gan y **Cawcws Cydraddoldeb Byd-eang**, ynghyd â Seneddwyr dros Weithredu Byd-eang, yr Ymddiriedolaeth Urddas Dynol a The Other Foundation, gan ddwyn ynghyd mwy na **200 o ddeddfwyr, staff seneddol a diplomyddion** rhwng 11 a 13 Tachwedd i rannu strategaethau deddfwriaethol.

Mae Cymru'n ymdrin â'r materion hyn o safbwynt datganoledig. Cafodd **Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru** ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2023, mae **Cynllun Gweithredu HIV 2023 – 26** yn ymrwymo i roi terfyn ar drosglwyddiadau newydd erbyn 2030 ac mae **Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023** yn sicrhau bod dyletswyddau cymdeithasol ynghlwm wrth contractau cyhoeddus. Roedd y cyfarfod yn Cape Town yn gyfle i glywed yn uniongyrchol gan bartneriaid a chasglu tystiolaeth amser real i helpu i lywio'r nodau polisi hyn a nodau polisi eraill.

---

## 2 Cynhadledd y Byd ILGA

### 2.1 Adeiladu’r mudiad a dad-wladychu

Cafwyd prif anerchiadau gan **y Parch. Mpho Tutu van Furth**; y trefnydd ieuenctid o Kenya, **Lebo Nkea**; ac Arbenigwr Annibynnol y Cenhedloedd Unedig, **Graeme Reid**, a oedd yn gosod cydraddoldeb ochr yn ochr â gwrth-hilioldeb a chyfiawnder economaidd. Cynhaliwyd gweithdai ar gyllido a gwleidyddiaeth iaith i annog cyllidwyr i ganolbwyntio ar fentrau a arweinir gan y gymuned.

### 2.2 Cyfiawnder rhyngrywiol

Aeth **Cyn-Gynhadledd Rhyngrywiol** ati i ddadansoddi cyfreithiau a basiwyd ers 2015 ym Malta, Portiwgal, yr Almaen ac, yn fwyaf diweddar, Kenya, sy'n gwahardd ymyriadau llawfeddygol ar fabanod rhyngrywiol heb ganiatâd. Pwysleisiodd y cynrychiolwyr yr angen i ddiwygio’r broses o gofrestru genedigaethau a darpariaeth iechyd gydol oes—

trafodaeth sy'n debygol o fod o ddiddordeb i Aelodau sydd wedi codi materion cysylltiedig ar ran etholwyr rhyngrywiol.

### 2.3 Arweinyddiaeth ac addysg ieuenctid

Cyfrannodd cannoedd o gynrychiolwyr ifanc at y **Fforwm Ieuenctid ILGA** mwyaf erioed, gan ddysgu oddi wrth ei gilydd ynghylch cwricwla cynhwysol a chymorth iechyd meddwl. Mae eu profiad yn adleisio'r broses o gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar draws ysgolion Cymru yn 2022.

### 2.4 Diogelwch digidol a chasineb ar-lein

Roedd sesiynau ar gyrion y prif gynhadledd o dan y teitl *"Encrypting Pride"* yn nodi bygythiad ysbïwedd, gan gynnig cynnal asesiadau effaith hawliau dynol ar gyfer allforion sy'n gysylltiedig ag offer gwyliadwriaeth—trafodfaeth amserol wrth i'r Senedd ystyried y mater hwn yng nghyd-destun Cymru wrth i is-ddeddfwriaeth i Ddeddf Diogelwch Ar-lein y DU gael ei datblygu.

### 2.5 Cyfiawnder hinsawdd

Heriodd paneli a gynhaliwyd ar y cyd ag **Out4Sustainability** ddarparwyr cyllid hinsawdd i integreiddio cerrig milltir sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, gan ategu'r alwad a wnaed yn ddiweddar gan Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd am egwyddorion pontio cyfiawn ar draws meysydd o wariant cyhoeddus.

---

## 3 Uwchgynhadledd Cydraddoldeb Byd-eang – trafodaethau deddfwriaethol a pherthnasedd i Gymru

Aeth yr Uwchgynhadledd Cydraddoldeb Byd-eang ati i drafod manylion y broses ddeddfu. Roedd sawl pwnc a drafodwyd yn uniongyrchol berthnasol i waith parhaus y Senedd, gan gynnwys:

- **Deddfwriaeth gynhwysol a naratifau sydd wedi'u gyrru gan ddata** – Pwysleisiodd y dadleuon agoriadol, o dan arweiniad yr **Esgob Joseph Tolton** a **Salen Kambinda**, yr eiriolwr o Namibia, yr angen i fframio trafodaethau yn seiliedig ar dystiolaeth. Gall eu pwyslais ar ddifidendau economaidd-gymdeithasol helpu i lywio trafodaethau yng Nghymru ynghylch y ddyletswydd sector cyhoeddus a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb.
- **Iaith casineb a thrais gwleidyddol** – Trafododd y Dirprwy o Frasil, **Duda Salabert**, y camau gorfodi a ddilynwyd ar gyfer **cyfraith 14.192/2021** ynghylch trais gwleidyddol ar sail rhywedd. Bydd ei phrofiad yn werthfawr i Bwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd, sy'n casglu tystiolaeth ar aflonyddu a bygwth Aelodau.

- **Ymgyfreitha strategol a dad-droseddoli** – Dangosodd cyflwyniadau gan gynrychiolwyr o Barbados a Botswana sut y cafodd buddugoliaethau yn y llysoedd eu trosi'n gyflym yn gamau pendant i ddiddymu deddfau gwahaniaethol gan y Seneddau perthnasol. Gall Cymru, er nad yw'n deddfu ar gyfraith droseddol, ddysgu o'r gwersi hyn wrth eirioli o blaid newid y materion a gedwir yn ôl gan San Steffan, neu ddatganoli'r pwerau hyn.
- **Economeg cydraddoldeb** – Roedd papur briffio gan Raglen Datblygu'r Cenhedloedd Unedig yn amcangyfrif bod gwahaniaethu yn erbyn cymunedau LHDTC+ yn gostwng cynnyrch domestic gros cenedlaethol tua un y cant. Gall enghreifftiau gan undebau llafur yn Ne Affrica o alinio cymalau absenoldeb rhianta sy'n niwtral o ran rhywedd ag amcanion cymdeithasol helpu i lywio'r gwaith o lunio ein canllawiau caffael arfaethedig ein hunain.
- **Ecwiti iechyd a HIV** – Tynnodd Gweinidogion o Wlad Thai a Victoria sylw at ostyngiadau o >60 y cant mewn diagnosis o achosion newydd o HIV ar ôl sicrhau mynediad cyffredinol at driniaeth PrEP. Bydd eu cymalau enghreifftiol ar argaeledd niwtral o ran oedran o gymorth i'r swyddogion sy'n mynd ati i roi'r **Cynllun Gweithredu HIV 2023 – 26** ar waith yng Nghymru.
- **Cyllid hinsawdd a grwpiau agored i niwed** – Galwodd deddfwyr o ardal y Môr Tawel am gyfeiriadau penodol at gyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth a mynegiant rhywedd a nodweddion rhyw ym meini prawf y Gronfa Hinsawdd Werdd. Er na chafodd y **Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio** yng Nghymru ei thrafod yn Cape Town, mae'n cynnig enghraifft ddomestig o dai sy'n wydn o ran yr hinsawdd ac sy'n cyd-fynd ag ymdrechion pwyllgor y Senedd i ymgorffori egwyddorion pontio cyfiawn mewn cyllidebau cyfalaf.
- **Arferion trosi** – Cynhaliwyd clinigau drafftio i gymharu *Bil C-4* yn Canada â'r gwaharddiad cenedlaethol yn Sbaen. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn asesu ei chymhwysedd deddfwriaethol a'r llwybrau posibl i weithredu yn y maes hwn—naill ai ar y lefel ddatganoledig neu ledled y DU—i weithredu'r ymrwymiad a oedd wedi'i gynnwys yn wreiddiol yn y Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru i fynd ar drywydd gwaharddiad effeithiol.

Daeth yr Uwchgynhadledd i ben gyda **Datganiad Cape Town 2024**, sef addewid cydsyniol i fynd ar drywydd dad-droseddoli, gwahardd arferion trosi, ymgorffori cydraddoldeb mewn cyfreithiau iechyd cyhoeddus a diogelwch digidol, a phrif-ffrydio metrigau ynghylch cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth a mynegiant rhywiol a nodweddion rhyw mewn cyllid hinsawdd. Cymeradwyodd deddfwyr o bob cyfandir cyfannedd y testun, gan danlinellu'r dylanwad y gall siambrau is-genedlaethol fel y Senedd ei gael wrth weithredu ar y cyd.